COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD DRWY DDULL HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD IAU, 17 GORFFENNAF 2025 AM 10:00

Yn bresennol

G Chapman – Cadeirydd (Aelod Lleyg – Yn Bresennol yn Rhithiol)

| | | | |
|---|---|---|---|
| C Davies | O Clatworthy | M L Hughes | RM Granville |
| RL Penhale-Thomas | | | |

Yn bresennol yn rhithiol

| | | |
|---|---|---|
| MJ Williams | S J Griffiths | S Easterbrook |

Aelodau Lleyg – Yn Bresennol

B Olorunnisola

Aelodau Lleyg – Yn Bresennol yn Rhithiol

| | |
|---|---|
| D Austin | A Bagley |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim

Datgan Buddiant

Dim

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Andrew Wathan | Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Joan Davies | Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Martin Morgans | Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro - Gwasanaethau Cymunedol |
| Sara-Jane Byrne | Archwilio Cymru |
| Dafydd Williams | Archwilio Cymru |
| Rachel Harries | Archwilio Cymru |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Simon Roberts | Uwch Ymchwilydd Twyll |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol |
| Kate Pask | Rheolwr Perfformiad Corfforaethol |
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes – Gwasanaethau Democrataidd |

**232. Cymeradwyo'r Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Penderfynwyd | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo bod Cofnodion cyfarfod 19 Mehefin 2025 yn gywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Gorffennaf 2025 |

## 233. Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| | |
|---|---|
| Penderfynwyd | Diben yr adroddiad hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Gofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor y Cofnod Gweithredu. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Gorffennaf 2025 |

## 234. Adroddiadau Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| | |
|---|---|
| Penderfynwyd | Diben yr adroddiad oedd cyflwyno un adroddiad gan Archwilio Cymru i'r Pwyllgor: '*Trefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr*' (Atodiad A).<br><br>Diben adroddiad Archwilio Cymru oedd rhoi sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol ar gyfer comisiynu gwasanaethau er mwyn sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau, rhoi sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gomisiynu gwasanaethau, ac egluro sut mae cynghorau'n mynd ati i gomisiynu gwasanaethau, ac ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff eraill y sector cyhoeddus drwy nodi a rhannu enghreifftiau o arfer/dulliau nodedig lle bo'n berthnasol.<br><br>Roedd Ffurflen Ymateb Rheolwyr y Cyngor ynghlwm yn Atodiad B.<br><br>Ar y cyfan, canfu Archwilio Cymru nad oes gan y Cyngor drefniadau i'w sicrhau ei hun ei fod yn cyflawni gwerth am arian wrth gomisiynu gwasanaethau.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau sawl mater, gan gynnwys y canlynol: |

| | |
|---|---|
| | • Nododd y Cadeirydd ei fod eisoes wedi ystyried adroddiad tebyg mewn Cyngor arall a bod y casgliadau yn yr adroddiad hwn yn debyg. Ceir arfer da mewn rhai meysydd, ac agweddau i'w gwella mewn meysydd eraill. O ran ymateb y rheolwyr, roedd y Cadeirydd o'r farn ei fod yn trafod cryn dipyn o'r materion yn gysylltiedig â chysondeb, sydd yn greiddiol i'r adroddiad.<br>• A oedd dull y Cyngor o gomisiynu yn arwydd bod y cyfarwyddiaethau'n gweithredu mewn seilo, ac a fyddai'r camau unioni eu hunain yn y fantol oherwydd cyfyngiadau ariannol o fewn y gyllideb ganolog. Mewn ymateb i hyn, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid, nad oedd gan y Cyngor swyddogaeth gomisiynu ganolog, er bod ganddo uned gaffael ganolog a oedd yn ymestyn ar draws cyfarwyddiaethau, Fodd bynnag, nododd nad oedd Archwilio Cymru wedi edrych ar elfennau eraill o'r gwasanaeth, fel gofal cymdeithasol, lle ceir arfer da yn gysylltiedig â chomisiynu. Roedd angen dwyn ynghyd y swyddogion hynny sy'n gweithio ym maes comisiynu i baratoi canllawiau a rhannu'r arfer da sy'n digwydd, a sicrhau bod hyn wedyn yn digwydd ar draws pob tîm.<br>• A oedd goblygiadau cyllidebol wrth geisio gwneud rhywbeth yn fwy canolog. Mewn ymateb i hyn, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid nad oedd hi'n credu hynny ond pe bai'r safbwynt hwnnw'n newid wrth barhau i weithredu newid, gellid bod angen edrych eto ar yr adnoddau sydd eu hangen.<br>• Gofynnodd Aelod sut y gallem barhau i ofyn i drigolion dalu mwy o dreth gyngor pan na allai'r Cyngor warantu bod eu harian yn cael ei wario'n ddoeth nac yn strategol. Ychwanegodd fod Archwilio Cymru wedi nodi nad oedd fawr ddim tystiolaeth o gynllunio hirdymor. Mewn ymateb i hyn, nododd cynrychiolydd o Archwilio Cymru, er bod y term gwerth am arian yn cael ei ddefnyddio'n eithaf aml yn yr adroddiad, nad oedd Archwilio Cymru yn dod i'r casgliad nad yw gwasanaethau Comisiynu'r Cyngor yn cynnig gwerth am arian. Yn hytrach, canfuwyd nad oes gan y Cyngor y trefniadau ar waith i'w sicrhau ei hun bod cysondeb ar draws y sefydliad o ran ei drefniadau i sicrhau gwerth am arian wrth gomisiynu gwasanaethau.<br>• Ailadroddodd y Cadeirydd mai craidd y mater dan sylw oedd yr angen i sicrhau cysondeb. Ychwanegodd fod cyllidebu llywodraeth leol yng Nghymru yn gweithredu ar gylch blynyddol ac, mewn gwirionedd, mai ychydig iawn o arian sydd gan awdurdodau lleol, ar wahân i'r hyn sydd ei angen i fodloni gofynion statudol o dan addysg a gofal cymdeithasol.<br>• Nododd Aelod fod angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio terminoleg gan fod un dehongliad o'r adroddiad yn awgrymu nad oedd unrhyw drefniadau comisiynu o fewn y Cyngor, er ei bod hi'n glir nad oedd hynny'n wir. Ychwanegodd fod arolygiadau gan Archwilio Cymru yn cael eu croesawu wrth gwrs er mwyn cynorthwyo'r awdurdod i wella'r modd y mae'n comisiynu gwasanaethau a phopeth arall y mae'n ei wneud. Fodd bynnag, mae'r Cyngor hwn wedi bodoli ers bron i ddeng mlynedd ar hugain ac, er ei fod yn gwerthfawrogi natur fanwl iawn yr arolygiad hwn, dim ond nawr yn 2025 yr oeddem yn cael trafodaeth ynghylch trefniadau'r Cyngor i'w sicrhau ei hun ei fod yn cyflawni gwerth am arian. Yn ogystal â hyn, gofynnodd yr Aelod a oedd Archwilio Cymru yn fodlon ag ymateb y rheolwyr i'r adroddiad a chadarnhawyd eu bod yn fodlon.<br>• Tynnodd Aelod sylw at benderfyniadau diweddar i ddychwelyd gwasanaethau gwastraff a thorri gwair yn fewnol, a gofynnodd a oedd y rhain yn cynrychioli gwerth am arian. Ac ystyried y trafodaethau a gynhaliwyd yn |

| | |
|---|---|
| | SOSC 3 ar 30 Medi 2024 ynghylch gwasanaethau gwastraff, nododd ei bod hi'n glir nad oedd digon o wybodaeth i gyfiawnhau penderfyniad o'r fath. Ychwanegodd ei fod o'r farn fod ymateb y rheolwyr yn 'wael iawn', a mynegodd syndod fod Archwilio Cymru yn fodlon â'r ymateb hwnnw.<br>• Nododd y Cadeirydd y byddai'r Aelodau'n cael hyd i gasgliadau ac ymatebion tebyg yn yr adroddiadau am awdurdodau lleol eraill. Yr hyn a oedd yn allweddol oedd rhoi rhywbeth ar waith a fyddai'n rhoi sicrwydd i ddinasyddion Pen-y-bont ar Ogwr fod system gadarn ar waith i oruchwylio'r broses gomisiynu. Mewn ymateb i hyn, awgrymodd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid y gallai hyn fod yn rhywbeth y gallai'r gwasanaeth archwilio mewnol ei gynnwys yn ei gynllun archwilio blynyddol, o bosib ar gyfer 2026/27. Cynigiodd y Cadeirydd fod hwn yn bwnc i'w ystyried gan bwyllgor Craffu.<br>• Roedd Aelod o'r farn ei bod hi'n bwysig i'r Pwyllgor beidio gorymateb i'r adroddiad. Hyd y gwelai, roedd Archwilio Cymru yn dweud wrth y Cyngor fod angen iddo sicrhau mwy o gysondeb a gwell trefniadau llywodraethu ar frig y sefydliad, er mwyn sicrhau bod cysondeb ac arfer gorau i'w gael ym mhob rhan ohono. Roedd yn cefnogi'r cais, ar y cyd ag Aelodau eraill, i gyfeirio'r mater i sylw Pwyllgor Craffu er mwyn edrych ar y cynlluniau wrth iddynt aeddfedu a gwneud yn siŵr eu bod yn gwbl addas i'r diben. Roedd o'r farn mai dyna oedd rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: nodi problemau a chynnig atebion.<br>• Nododd Aelod Lleyg fod angen rhoi ystyriaeth lawn a sicrhau ymagwedd gyson at Oblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth lunio'r holl adroddiadau ar yr agenda. Roedd angen cynnal asesiad effaith llawn ar frys a oedd yn archwilio'r berthynas rhwng gwahanol faterion a'r effaith gyffredinol ar bolisïau a'u gweithrediad.<br>• Yn dilyn y cyfraniad blaenorol, ac ar sail yr adroddiad, yr ymateb gan y rheolwyr, a chyfraniadau'r Aelodau at y drafodaeth amdanynt, holodd un o'r Aelodau a oedd cyfle i oedi a chynllunio i gynnig ymateb ychydig yn ehangach na'r un gwreiddiol, gan roi ystyriaeth i Oblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac edrych ar gomisiynu a chaffael mewn modd mwy cyfannol, strategol a chynaliadwy.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ynghyd â Ffurflen Ymateb Rheolwyr y Cyngor i'r adroddiad yn Atodiad B.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor am gael cyfeirio comisiynu (gan gynnwys adroddiad Archwilio Cymru a'r ymateb gan y rheolwyr) i sylw'r Pwyllgor Craffu er ystyriaeth.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor i'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd gymryd camau i sicrhau bod awduron yn cryfhau'r adrannau o bob adroddiad sy'n crynhoi'r asesiadau effaith mewn perthynas â Chydraddoldeb, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Y Newid Hinsawdd a Natur, Diogelu a Rhianta Corfforaethol, a Goblygiadau Ariannol. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Gorffennaf 2025 |

## 235. Monitro Argymhellion Archwilio Mewnol

| | |
|---|---|
| Penderfynwyd | Diben yr adroddiad hwn oedd rhoi datganiad safbwynt i aelodau'r Pwyllgor ar argymhellion archwilio mewnol a wnaed, a weithredwyd ac a oedd yn weddill ar 30 Mehefin 2025 ac ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â statws yr argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.<br><br>• Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion yn gysylltiedig â Gorfodi (a Strategaeth) Parcio, Milltiroedd o'r Cartref i'r Gwaith yng Ngherbydau'r Cyngor (gan gynnwys atebolrwydd treth), Harbwr Porthcawl (gan gynnwys cyfansoddiad a gweithrediadau'r Bwrdd, yr angen am gynrychiolaeth wleidyddol, i oruchwylio'r cyfeiriad strategol, ac argaeledd y cofnodion), a'r materion a nodwyd mewn dwy ysgol, Ysgol Gynradd Pen-y-bont ac Ysgol Maesteg. Mewn ymateb i hyn, ymrwymodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc a'r Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro - Gwasanaethau Cymunedol i ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan yr Aelodau i'r Pwyllgor.<br>• Nododd y Cadeirydd ei fod wedi disgwyl y byddai adroddiadau ysgrifenedig yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ar y materion a nodwyd yn y cyfarfod blaenorol mewn perthynas ag agweddau a oedd yn destun pryder, yn hytrach na dim ond diweddariadau yng nghyd-destun adroddiad monitro argymhellion archwilio mewnol.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Nododd aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gynnwys yr adroddiad ac ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd yn gysylltiedig â statws yr argymhellion blaenoriaeth canolig ac uchel a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol. |

| | |
|---|---|
| | Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cyfarwyddwyr cyfrifol gyflwyno adroddiadau ysgrifenedig ffurfiol, a fyddai'n cynnwys y rhesymau dros oedi cyn gweithredu argymhellion, lle bo'n briodol i gyfarfod nesaf y Pwyllgor, fel a ganlyn:<br><br>• Gorfodi Parcio<br>• Milltiroedd o'r Cartref i'r Gwaith yng Ngherbydau'r Cyngor.<br>• Harbwr Porthcawl.<br>• Y problemau a nodwyd mewn dwy ysgol, Ysgol Gynradd Pen-y-bont ac Ysgol Maesteg. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Gorffennaf 2025 |

**236. Drafft o Ddatganiad Cyfrifon 2024-25**

| | |
|---|---|
| Penderfynwyd | Pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon anarchwiliedig ar gyfer 2024-25 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sydd ynghlwm yn **Atodiad A** i'w nodi.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau sawl mater, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am gyflwyno'r datganiad cyfrifon drafft i'r Archwilydd Cyffredinol erbyn y dyddiad cau, sef 30 Mehefin.<br>• Ac ystyried bod y Cyngor yn disgwyl cyfrifon drafft y Fargen Ddinesig, gofynnodd Aelod a oedd unrhyw beth y gellid ei wneud ynghylch hynny, gan mai dyma oedd yr ail flwyddyn i hynny ddigwydd. Mewn ymateb i hyn, nododd y Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd eu bod yn parhau i bwyso a gofyn pryd y byddant ar gael, a'u bod wedi'u cynhyrchu mewn pryd i Ben-y-bont ar Ogwr fodloni'r dyddiad cau archwilio y llynedd. Ac ystyried bod eraill wedi codi pryderon ynghylch yr oedi, cynigiodd y Cadeirydd y dylid anfon llythyr at yr Archwilydd Cyffredinol i fynegi pryder yr Aelodau ynghylch hyn.<br>• Nododd Aelod fod y dyddiadau cau yn cael eu tynhau o hyd, a gofyn a oedd y dyddiadau hynny'n ymarferol ac yn realistig.<br>• Nododd Aelod y cafwyd nifer sylweddol o ddiswyddiadau yn 2024/25 o gymharu â 2023/24, a chost y pecynnau ymadael.<br>• Awgrymodd Aelod arall y gallai'r nifer fwy o ddiswyddiadau fod yn gysylltiedig â cholli cyllid o'r Gronfa Ffyniant |

| | |
|---|---|
| | Gyffredin. Nododd y Cadeirydd mai awdurdodau lleol oedd yn gorfod talu cyllid diswyddo pan fyddai cyllid grant o ffynonellau'r llywodraeth, er enghraifft, yn cael ei ddarparu i ariannu prosiectau a mentrau.<br>• Nododd y Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd y byddai'n ystyried y sylwadau ynghylch diswyddiadau ac yn rhoi trosolwg i'r Aelodau cyn hir.<br>• Nododd Aelod, er mai'r gyllideb Cyfalaf a gymeradwywyd yn derfynol ar gyfer y flwyddyn oedd £56.110 miliwn, dim ond cyfanswm o £29.331 o wariant a gafwyd. Ac ystyried y gwahaniaeth rhwng y naill ffigur a'r llall, nododd Aelod y byddai wedi disgwyl mwy o esboniad yn yr adroddiad ynghylch pam bod hyn yn wir. Yn ogystal â hynny, nododd yr Aelod fod y rhan fwyaf o'n cyllid cyfalaf yn dod o grantiau allanol, a bod terfynau amser ar y grantiau hynny fel arfer. Mewn ymateb i hyn, nododd swyddogion ei bod hi bob amser yn anodd barnu faint o fanylion i'w darparu, ond tynnwyd sylw at y ffaith bod dadansoddiad llawn o wariant cyfalaf wedi'i gyflwyno mewn adroddiad (*Alldro Rhaglen Gyfalaf 2024-25 a Diweddariad Chwarter 1 2025-26*) i'r Cabinet a'r Cyngor ar 22 a 23 Gorffennaf, a chynigiodd gynnwys dolen i'r adroddiad yn fersiwn derfynol Datganiad Cyfrifon 2024-25.<br>• Nododd Aelod fod angen i'r Cyngor gael gafael gwirioneddol ar y rhaglen gyfalaf, ac roedd hynny'n golygu llunio rhagolygon priodol. Yn dilyn hyn, nododd cynrychiolydd o Archwilio Cymru eu bod wedi dechrau astudiaeth llywodraeth leol o gynllunio cyfalaf, ac y gallai'r canlyniadau fod o ddiddordeb i'r Aelodau.<br><br>• Tynnodd Aelod Lleyg sylw yn gyntaf at yr adran yn yr adroddiad ar risgiau, canlyniadau, a lliniaru ond nododd nad oedd unrhyw drafodaeth am eu heffaith. Yn ail, nododd fod yr adroddiad yn datgelu nifer y gweithwyr sy'n derbyn cyflog dros £60,000, sydd wedi codi o 183 y llynedd i 242 eleni. Credai y dylid cael rhyw fath o naratif i esbonio pam hynny. Yn drydydd, gofynnodd am y sgôr 'resymol' gyffredinol o ran llywodraethu, risg a rheolaeth a thrywydd y Cyngor. Mewn ymateb i'r trydydd pwynt, nododd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod y farn gyfartalog yn seiliedig ar farnau unigol a gyhoeddwyd ar gyfer tasgau archwilio unigol. Roedd yn gobeithio y byddai'r Aelodau wedi sylwi o'r adroddiad blynyddol fod gwelliant a chynnydd yn nifer yr adroddiadau sylweddol yn 2024-25. Roedd o'r farn fod hynny'n gam i'r cyfeiriad cywir, ond byddai'n cymryd llawer o farnau archwilio sylweddol i beri bod y farn gyffredinol yn newid o resymol i sylweddol.<br>• Mewn ymateb i'r holl sylwadau, nododd swyddogion y byddent yn eu hystyried wrth baratoi fersiwn derfynol Datganiad Cyfrifon 2024-25.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Ddatganiad Cyfrifon anarchwiliedig 2024-25 yn **Atodiad A**; a,<br><br>Gofynnwyd am gael drafftio llythyr, i'w lofnodi gan y Cadeirydd, at yr Archwilydd Cyffredinol yn mynegi pryder ynghylch yr oedi unwaith eto yn gysylltiedig â chyfrifon Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Gorffennaf 2025 |

**237. Datganiad Harbwr Porthcawl 2024-25**

| | |
|---|---|
| Penderfynwyd | Diben yr adroddiad oedd cyflwyno Datganiad anarchwiliedig Harbwr Porthcawl ar gyfer 2024-25 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, nododd y Cadeirydd fod yr awdurdod lleol wedi cyfrannu £148,027 at gostau cynnal Harbwr Porthcawl. Gofynnodd Aelod am gael eglurhau'r naratif ynghylch y costau staff yn gysylltiedig â Rhes 6 y datganiad cyfrifyddu.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Ddatganiad anarchwiliedig Harbwr Porthcawl 2024-25 yn Atodiad A, yn amodol ar ddiwygio'r naratif ynghylch costau staffio yn gysylltiedig â Rhes 6 y Datganiad Cyfrifyddu. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Gorffennaf 2025 |

**238. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024-25**

| | |
|---|---|
| Penderfynwyd | Diben yr adroddiad oedd cyflwyno Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024-25 (DLlB) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w gymeradwyo a'i gynnwys yn Natganiad Cyfrifon anarchwiliedig 2024-25.<br><br>PENDERFYNWYD: |

| | |
|---|---|
| | Cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddrafft y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn **Atodiad A** a chytuno i'w gynnwys yn Natganiad Cyfrifon anarchwiliedig 2024-25. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Gorffennaf 2025 |

## 239. Adroddiad Alldro Rheoli Trysorlys 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfynwyd | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar gais y Cadeirydd, gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Gorffennaf 2025 |

## 240. Adroddiad Blynyddol ar Dwyll Corfforaethol 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfynwyd | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar gais y Cadeirydd, gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Gorffennaf 2025 |

## 241. Asesiad Risg Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Penderfynwyd | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar gais y Cadeirydd, gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Gorffennaf 2025 |

## 242. Traciwr Rheoleiddiol

| | |
|---|---|
| Penderfynwyd | PENDERFYNWYD:<br><br>Ar gais y Cadeirydd, gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Gorffennaf 2025 |

## 243. Hunanasesiad 2024/25

| | |
|---|---|
| Penderfynwyd | Diben yr adroddiad hwn oedd ceisio barn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr hunanasesiad drafft ar gyfer 2024/25.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, fel a ganlyn:<br><br>• Yn rhan o'r amcanion llesiant, a chan fod Cymru bellach am fod yn 'Genedl Marmot', gofynnodd Aelod Lleyg beth |

| | |
|---|---|
| | oedd y Cyngor yn ei wneud i feddwl am y metrigau a oed yn gysylltiedig â mabwysiadu wyth egwyddor Syr Michael Marmot, sy'n anelu i gael gwared â gwahaniaethau annheg y gellir eu hosgoi o ran iechyd. Gall y gwahaniaethau hyn gael eu hachosi gan y math o swydd y mae pobl yn ei wneud, sut mae cymdeithas yn eu trin a ble maen nhw'n byw.<br>• Nododd yr un Aelod Lleyg fod y cyfeiriad at y targed ar gyfer nifer y disgyblion ar restrau aros am ddarpariaeth arbenigol Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn amheus, ac ystyried y dylai darpariaeth o'r fath fod yn seiliedig ar Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Hefyd, roedd hi'n werth archwilio gwaith ieuenctid yn rhan o'r ymyriadau a'r gwasanaethau a oedd yn cael eu dylunio i gefnogi addysg. Mewn ymateb i hyn, nododd y Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus y byddai'n ymgynghori â chydweithwyr Addysg cyn cwblhau'r adroddiad i'r Cyngor.<br>• Holodd Aelod am yr amserlen ar gyfer ystyried yr adroddiad drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor, a thrafododd y camau a oedd y cael eu cymryd yn lleol ac ar raddfa Cymru gyfan o ran cynnwys y defnyddiwr gwasanaeth wrth asesu perfformiad.<br>• Trafododd Aelod a swyddogion y sgôr 'Da' (Amcan Llesiant 5.5) mewn perthynas â'r ymrwymiad i wella amddiffynfeydd rhag llifogydd a chynlluniau i leihau llifogydd mewn cartrefi a busnesau, a gwerth a digonolrwydd nodau a Dangosyddion Perfformiad. Ar yr un pwnc, holodd Aelod arall ynghylch cynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) fel amod cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr a rhai datblygiadau eraill.<br>• Gofynnodd Aelod Lleyg am y rheolaeth sydd gennym dros y system i asesu perfformiad ac a oedd matrics safonol er mwyn helpu i gymharu.<br>• Nododd Aelod efallai na fydd yr asesiad o'n perfformiad ein hunain o bosib yn apelio at y defnyddiwr gwasanaeth a chwestiynodd y farn 'Da' o ran gwneud y Cyngor yn lle deniadol i weithio. Yn amlwg, os oedd hi'n anodd recriwtio swyddogion cynllunio a pheirianwyr er enghraifft, nid oedd y Cyngor yn lle deniadol i bawb gael gweithio.<br>• Dywedodd Aelod Lleyg fod rhai o'r heriau'n gysylltiedig â chynnwys, cydweithredu ac ymgysylltu yn greiddiol i'r gwaith ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a meddyliodd a allai gweithredu hynny mewn modd strategol fod o gymorth wrth feddwl sut i ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan greiddiol o'r broses benderfynu. Mewn ymateb i hyn, nododd y Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus fod nifer o brosiectau perthnasol yn cael eu cynnal yn gysylltiedig â hyn, ac awgrymodd y gellid gwahodd y Rheolwr Grŵp - Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus i roi briff i'r Aelodau amdanynt.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio safbwyntiau a sylwadau i'w nodi gan swyddogion ar adroddiad drafft Hunanasesiad 2024/25 yn **Atodiad 1** a'r wybodaeth ategol am berfformiad yn **Atodiad 2.** |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Gorffennaf 2025 |

| | |
|---|---|
| | |

## 244. Asesiad Perfformiad Panel (PPA)

| | |
|---|---|
| Penderfynwyd | Diben yr adroddiad hwn oedd hysbysu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei bod hi'n ofynnol i'r Cyngor gomisiynu a threfnu asesiad perfformiad panel cyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf, a goblygiadau'r gofyniad hwn. Mae'n darparu gwybodaeth am lywodraethu a rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, nododd y Cadeirydd nad oedd yn cynnwys paragraff 3.9.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio eu rôl a'u cyfrifoldebau ym mhroses yr Asesiad Perfformiad Panel a oedd wedi'i hamlinellu ym mharagraffau 3.10 a 3.11. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Gorffennaf 2025 |

## 245. Blaenraglen Waith 2025-26

| | |
|---|---|
| Penderfynwyd | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Flaenraglen Waith ddiwygiedig ar gyfer 2025-26.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, nododd y Cadeirydd fod pedwar adroddiad yn weddill yr oedd angen eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.<br><br>Nododd Aelod fod problemau'n gysylltiedig â goruchwylio ac adroddiadau cyrff allanol yr ydym yn penodi aelodau ar eu cyfer. Er enghraifft, mae gan Fwrdd Gwarchodwyr Coety Walia, a sefydlwyd drwy Ddeddf Tiroedd Comin Coety Walia 1976, ddau aelod o'r Cyngor ac mae'n goruchwylio gwaith rheoli, cynnal a chadw a gwella Tir Comin Coety Walia. |

| | |
|---|---|
| | Ac ystyried cyfrifoldebau'r pwyllgor mewn ymateb i 'lywodraethu', a'r ffaith bod cydbwyllgorau o'r fath yn cyflawni dyletswyddau ar ran y cynghorau cyfansoddol, cynigiodd y Cadeirydd mai'r hyn yr oedd ei angen oedd i'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol, gyflwyno adroddiad maes o law i esbonio lle caiff holl gofnodion y cydbwyllgorau eu hadrodd, ac awgrymu bod hyn yn fater y gallai Archwilio Cymru ei ystyried.<br><br>Mewn ymateb i hyn, nododd swyddog o Archwilio Cymru fod ymrwymiad i edrych ar 'lywodraethu partneriaeth' yn eu rhaglen waith ac y byddai'n holi ei chydweithwyr ynghylch ystyr hynny, ac yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor yn y dyfodol.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Bod y Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo'r Flaenraglen Waith a oedd wedi'i diweddaru ar gyfer 2025-26, yn amodol ar y diwygiadau canlynol yn gysylltiedig â'r cyfarfod nesaf ar 30 Hydref 2025:<br><br>• Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc yn esbonio'r ymdriniaeth â'r materion a nodwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol mewn dwy ysgol, Ysgol Gynradd Pen-y-bont a Maesteg.<br>• Tri adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau ar Filltiroedd o’r Cartref i’r Gwaith yng Ngherbydau’r Cyngor, Gorfodi (a Strategaeth) Parcio, a Harbwr Porthcawl (gan gynnwys cyfansoddiad a gweithrediadau’r Bwrdd). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Gorffennaf 2025 |

**246. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfynwyd | Ni chafodd yr eitem agenda hon ei hystyried gan y Pwyllgor. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Gorffennaf 2025 |

**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 17 GORFFENNAF 2025**

I weld y drafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:15.